Ydych chi'n oedran 16+, ac mewn addysg dysgu yn y gweithle neu'n astudio cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru? Eisiau helpu i ddylanwadu ar gymwysterau yn y dyfodol?

Rydym yn recriwtio aelodau ar gyfer ein Grŵp Dysgwyr Galwedigaethol/Dysgu yn y Gweithle newydd – dyma sut i gymryd rhan

Pwy ydyn ni?

Ni yw'r sefydliad annibynnol sy'n rheoleiddio cymwysterau yng Nghymru. Rydym yn sicrhau bod byrddau arholi (sefydliadau sy'n creu ac yn asesu cymwysterau) yn dilyn ein rheolau fel bod cymwysterau'n cael eu hasesu'n deg, a'u bod yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr ar gyfer y dyfodol.

Y Grŵp Dysgwyr Galwedigaethol/Dysgu yn y Gweithle

Rydym yn sefydlu Grŵp Dysgwyr Galwedigaethol/Dysgu yn y Gweithle a fydd yn ein helpu i siarad â dysgwyr a deall yr heriau sy'n eu hwynebu. Rydym am i aelodau'r grŵp ein herio, yn ogystal â'n cefnogi yn ein gwaith, i'n helpu i roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar ddysgwyr a myfyrwyr am gymwysterau.

Bydd y grŵp yn cynnwys 12 o ddysgwr, a fydd yn rhan o'r grŵp am un flwyddyn i ddechrau.

Dylai'r Aelodau fod:

- Oedran 16+
- mewn addysg dysgu yn y gweithle (hyfforddeiaeth/prentisiaeth) neu astudio cymwysterau galwedigaethol
- o wahanol fathau o gefndiroedd a lleoliadau addysg (fel colegau ac amgylcheddau dysgu yn y gweithle), ac yn cynnwys gwahanol fathau o ddysgwyr (fel dysgwyr cyfrwng Cymraeg a'r rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol).

Byddwn yn recriwtio aelodau o bob rhan o Gymru. Cyn y cyfarfod cyntaf, byddwn yn cynnal sesiwn 'Croeso' i'r grŵp, lle gall aelodau ddod i adnabod ei gilydd a dysgu mwy am y grŵp.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Sut a phryd y byddwn yn cyfarfod

Cynhelir ein cyfarfodydd grŵp ar-lein, gan ddefnyddio Microsoft Teams, y tu allan i oriau addysg a gwaith arferol.

Gofynnwn i chi ymrwymo i'r cyfarfod 'Croeso' (12 Hydref 2021), a thri 'phrif' gyfarfod eleni. Cynhelir y prif gyfarfod cyntaf ar 16 Tachwedd 2021, a bydd y lleill yn cael eu cynnal ym mis Chwefror a mis Ebrill 2022.

O bryd i'w gilydd, efallai y byddwn yn gofyn am ddal i fyny â'r grŵp, os oes angen mwy o amser arnom i drafod gweithgareddau. Byddai'r cyfarfodydd hyn yn ddewisol, er ein bod yn eich annog i ymuno â nhw fel y gallwch gymryd rhan mewn darnau newydd o waith a dal i fyny ag aelodau eraill.

Ymddiried

Rydym am i aelodau'r grŵp fod yn onest, a dweud wrthym beth maen nhw'n ei deimlo mewn gwirionedd am y materion sy'n effeithio ar gymwysterau a dysgwyr yng Nghymru.

Sgiliau, gwybodaeth a phrofiad

Rydym am i aelodau'r grŵp ddangos i ni eu hymrwymiad a'u parodrwydd i'n helpu i ddatrys problemau. Rydym yn chwilio am ystod o sgiliau, ond byddwn am weld tystiolaeth o sgiliau cyfathrebu da ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cymwysterau wrth helpu dysgwyr i symud ymlaen.

Sut i wneud cais

Â diddordeb? Gallwch wneud cais i ymuno drwy lenwi ffurflen mynegi diddordeb fer neu anfon fideo neu recordiad llais byr atom, gan ddweud wrthym pam y byddech yn gwneud aelod gwych o Grŵp Dysgwyr Galwedigaethol/Dysgu yn y Gweithle.

Y dyddiad cau **yw 22 Medi 2021**. Byddwn yn dweud wrth bob ymgeisydd a ydynt yn llwyddiannus ai peidio, ac os cewch eich dewis, byddwn hefyd yn cysylltu â'ch hyfforddwr neu goleg i roi gwybod iddynt.

Rhagor o wybodaeth

Rydym eisoes wedi sefydlu Grŵp Cynghori i Ddysgwyr sy'n canolbwyntio ar drafod cymwysterau cyffredinol fel TGAU, UG a Safon Uwch a gallwch ddod o hyd i'r newyddion diweddaraf gan y grŵp ar ein gwefan: https://www.qualificationswales.org/cymraeg/dyfarnu-2021/grwp-cynghori-i-ddysgwyr/

Gallwch ddarllen mwy am ein gwaith yma.